

## **Cyfleoedd cyflogaeth unigryw i bobl ifanc**

Bydd digwyddiad Swyddi Gwag Byw Cyngor Caerffili yn dychwelyd ar ddydd Iau 8<sup>fed</sup> o Fawrth i ddarparu cyfleoedd swyddi ar y pryd i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.

Denodd y digwyddiad, bu am y tro cyntaf fis Gorffennaf diwethaf, fwy na 600 o bobl ifanc ac mae trefnwyr wedi addo y bydd y digwyddiad hwn hyd yn oed yn fwy ac yn well gyda nifer cynyddol o gyflogwyr yn ceisio am le.

Trefnwyd y digwyddiad gan Wasanaeth Ieuencid Cyngor Caerffili yn gweithio law yn llaw â phartneriaid Gyrfa Cymru. Bydd Canolfan Hamdden Sue Noake yn Ystrad Mynach yn cael ei thrawsnewid yn farchnad o gyflogwyr a bydd yn agored i'r cyhoedd rhwng 10am a 2:30 pm.

Bydd swyddi ar draws gwahanol sectorau ar gael sy'n cynnwys manwerthu, Llywodraeth Ganolog, Lluoedd Arfog, Canolfannau Cyswllt, Diwydiant a llawer mwy.

Mae'r digwyddiad wedi'i gynllunio i ategu'r gweithgareddau a drefnir gan gyngor Caerffili fel y cynllun Cynnydd i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, "Roedd y digwyddiad hwn mor llwyddiannus yn 2017 ac rydym wrth ein boddau i allu gweithio gyda'n partneriaid i ddod ag ef yn ôl. Eleni mae gennym hyd yn oed mwy o gyflogwyr wedi ymuno i gynnig cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth unigryw.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â John Poyner ar 01443 864970 neu anfonwch e-bost at [poynej@caerffili.gov.uk](mailto:poynej@caerffili.gov.uk)

*Llun: Digwyddiad llynedd.*